**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Amanda Davies - Prif Weithredwr,
Grŵp Pobl,
Exchange House,
Yr Hen Swyddfa Bost,
Stryd Fawr,
Casnewydd
NP20 1AA

17 Rhagfyr 2017

Annwyl Amanda,

Yn gynharach eleni, fe wnaethoch ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i roi tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cawsoch eich holi gan y Pwyllgor am ddatgelu taliadau colli swydd yn natganiadau ariannol Grŵp Gwalia ar gyfer 2015 -16. Gofynnodd y Pwyllgor ichi egluro pam yr ymddengys nad oedd rhywfaint o daliadau colli swydd wedi'u datgelu ar ôl creu Grŵp Pobl.

Fe wnaethoch ateb y cwestiwn hwn drwy ddweud y byddai bwrdd Gwalia wedi rhoi taliad colli swydd i unigolyn a oedd wedi bod yn gweithio i'r sefydliad am gryn amser, a hynny'n unol â'i ymrwymiadau cytundebol.[1] Fodd bynnag, er i'r Pwyllgor ddweud nad oedd y taliad wedi'i ddatgelu yn y datganiadau ariannol, roeddech chi'n meddwl ei fod wedi'i ddatgelu ac y byddech yn cadarnhau hynny, gan ychwanegu na fyddai unrhyw reswm dros beidio â gwneud hynny.[2]

Yn anffodus, ers y cyfarfod, ni chawsom eglurhad ar y mater, ac rydym hefyd wedi sylwi, ers hynny, fod cyfrifon 2014-15 a 2015-16 a baratowyd gan Grŵp Gwalia yn cynnwys gwybodaeth am daliadau i 'uwch swyddogion gweithredol'.

[1] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 13 Chwefror 2017, paragraff 185
[2] Ibid, paragraff 191

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Mae Nodyn 10 yng nghyfrifon 2014-15 (tudalen 37) yn nodi bod "£35,000 o daliadau colli swydd wedi'u rhoi i uwch swyddogion gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 ".

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, cyfrifon 2015-16 oedd y rhai cyntaf a oedd yn gorfod cydymffurfio â'r safonau cyfrifyddu newydd (fel y nodir yn Safon Adrodd Ariannol 102). Mae naratif ar dudalen 15 o'r nodiadau sy'n rhan o gyfrifon 2015-16 yn nodi bod "y wybodaeth ariannol .... ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 wedi'i hailddatgan ar gyfer addasiadau perthnasol ar fabwysiadu FRS 102 yn y flwyddyn gyfredol ".

Ein dehongliad ni o hyn yw na fydd y ffigurau ar gyfer 2014-15, sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifon 2015-16, yr un fath â'r ffigurau yng nghyfrifon 2014-15 gan y byddant wedi'u hailddatgan (diwygio) o bosibl i gyd-fynd â'r gofynion cyfrifyddu newydd ar gyfer 2015-16.

Rydym wedi adolygu'r addasiadau ond nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw beth sy'n ymwneud yn benodol â gwybodaeth am daliadau colli swydd.

Mae Nodyn 11 yng nghyfrifon 2015-16 (tudalen 43) yn nodi mai'r taliadau colli swydd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 i "gyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r staff gweithredol" oedd sero. Mae'r cyfrifon yn cynnwys taliadau colli swydd gwerth £406,000 yn ystod y flwyddyn flaenorol (hyd at 31 Mawrth 2015).

Rydym yn nodi bod Cyfarwyddwyr yn cael eu diffinio, yn y troednodyn i Nodyn 11, fel "aelodau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr ac unrhyw un arall sy'n aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol".

Fodd bynnag, nid ydym yn glir a yw'r diffiniad hwn yn wahanol i'r hyn a fabwysiadwyd yn 2014-15, ar gyfer 'uwch swyddog gweithredol' ac felly, a oes modd cymharu'r wybodaeth yn 2014-15 a 2015-16 yn uniongyrchol. Ar wahân i nodi'r disgrifiadau gwahanol a fabwysiadwyd, nid ydym wedi gallu dod o hyd i unrhyw wybodaeth i esbonio'r berthynas rhwng y symiau taladwy fel iawndal am golli swydd yn ystod 2014-15 (neu'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau) fel y'u nodir yng nghyfrifon 2014-15 a 2015-16 (£35,000 a £406,000 yn y drefn honno).

Rydym hefyd wedi adolygu'r datganiadau ariannol Pobl Group Limited ar gyfer 2016-17 ac nid ydym wedi gweld unrhyw wybodaeth arall am symiau taladwy i uwch swyddogion mewn perthynas ag iawndal am golli swydd.

Yn olaf, rydym wedi adolygu'r cyfrifon a baratowyd ar gyfer is-gwmnïau blaenorol Gwalia (Tai Cymdogaeth Cyf, Tai Cartrefi Cyf, Gofal a Chymorth Gwalia Cyf, Tai Gŵyr Cyf ac Ymddiriedolaeth Tai Gawlia). Mae'r rhain i gyd yn croesgyfeirio at y cyfrifon cyfunol neu'r cyfrifon Grŵp ar gyfer 2016-17 hy y rhai a baratowyd gan People Group Limited. Felly, nid oes dim gwybodaeth berthnasol i'w chael yn y rhain chwaith. Nid ydym wedi dod o hyd i gyfrifon yr is-gwmnïau hyn ar gyfer 2015-16 ar wefan Grŵp Gwalia.

O ystyried y wybodaeth uchod, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r symiau taladwy i gyfarwyddwyr ac uwch swyddogion gweithredol fel iawndal colli swydd wrth uno Gwalia a Seren i ffurfio Grŵp Pobl ar 1 Ebrill 2016, ynghyd â nodyn yn rhoi dyddiad y taliadau, sut y cafodd y rhain eu trin a'u cofnodi yn natganiadau ariannol y grŵp(iau) a'i is-gwmnïau.

Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sefyllfa'n ymwneud â'r symiau taladwy fel iawndal colli swydd ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu 2014-15 a 2015-16, gan gynnwys esboniad am y gwahaniaeth rhwng y symiau taladwy ar gyfer 2014-15 fel y'u nodir yng nghyfrifon 2014-15 a 2015-16 (£35,000 a £406,000 yn y drefn honno).

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**

**Cadeirydd**

Nick Ramsay AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

people making a difference

26 January 2018

Dear Nick,

Thank you for your letter dated 18th December. I have already explained that I only saw your letter last week. Apologies. I have now had the chance to look into the questions you raise and can now clarify matters.

Starting with the accounting period 2014/15. The sum of £35k reported in the statutory account relates to the redundancy of a Gwalia Director of IT. The larger sum reported in the 2015/16 financial year of £406k relates to a significant restructuring programme which took place in Grŵp Gwalia called 'Fit for the Future'.

The aim of the programme was to significantly reduce costs in the Group, targeting some £3 million of efficiencies. The £406k payment for loss of office related to the redundancy cost of four members of the Executive team reducing the size of the Executive from 7 to 3 new posts. I am advised that the payments were made in line with their contractual entitlements and Gwalia's redundancy policy. Some of these Executives had over 26 years of service. Of the £406k, £167k relates to payment in lieu of outstanding contractual notice period. The decision that senior executives are not required to work their notice periods, leaving the business, is common practice and was wholly appropriate given the circumstances at the time. The removal of these posts realised recurring annual savings in excess of £350k.

In terms of the payment to Mr Williams and its disclosure, I have taken the opportunity to talk with our auditors Mazars about its treatment in the financial statements. Mr Williams was a very long serving member of staff with 33 years' service to Grŵp Gwalia. Mr Williams was made redundant by Grŵp Gwalia as a consequence of the decision to form the Pobl Group. The role of Pobl Group CEO was subject to a competitive process (with the full involvement of the Housing Regulator) and Mr Williams was not appointed. As a result, he was entitled to a redundancy payment under the Grŵp Gwalia redundancy policy. His redundancy payment was paid to him on 15th April 2016 as agreed between the respective legal advisors.



Pobl Group Ltd. Registered as a Charitable Co-operative and Community Benefit Society No. 29682R. Registered Welsh Government No. J139.
Registered Office: Exchange House, The Old Post Office, High Street, Newport NP20 1AA

Pobl Group Cyf. Cofrestrwyd fel Cwmni Cydweithredol Elusennol a Chymdeithas Budd Cymunedol Rhif. 29682R. Cofrestrwyd gyda Llywodraeth Cymru, Rhif. J139.
Swyddfa Gofrestredig: Tŷ'r Gyfnewidfa, Hen Swyddfa'r Post, Stryd Fawr, Casnewydd NP201AA

people making a difference

Mr Williams received a redundancy payment of £119k, he was also paid 9 months contractual notice of £114k and was owed holiday pay of £10k. All of these payments were agreed by the Grŵp Gwalia Board and shared with the regulator. As I stated at the PAC every penny paid to Mr Williams was in line with his contractual entitlement. In terms of the commercial gain to the new group the payback on this cost was less than 18 months.

The Pobl Group, in producing its first set of accounts followed FRS 102 by including a Directors note in the parent rather than within subsidiary company accounts. Michael Williams was an employee of Grŵp Gwalia which became a subsidiary of Seren Group (under the new name Pobl Group).

In line with the accounting standards Mr Williams' loss of office payment was not included in the parent accounts as he was not a Director of Pobl Group. Although this is technically a correct treatment, it doesn't reflect the fact that we would want to be open about Mr William's exit arrangements. During the PAC inquiry, we were in the process of producing the first set of Group accounts and, not being an expert in FRS 102, I had no reason to assume that the payments would not be fully disclosed.

We value transparency and at every step of the merger have been open about our plans and intentions. I am disappointed that this has happened and have asked Mazars to amend the disclosure note in Pobl Group's accounts to include the costs in relation to Michael Williams' loss of office. Our accounts will be re-issued on the Pobl Group website within the next working week.

If you wish to discuss this or any other matter further I would be more than happy to meet.

Yours sincerely,

Amanda Davies

Amanda Davies
**Group Chief Executive**

Cc Wendy Bourton, Pobl Group Chair

tel/ffôn: 01633 679911 web/we: www.poblgroup.co.uk @poblgroup poblgroup
Exchange House, The Old Post Office, High Street, Newport NP20 1AA Ty'r Gyfnewidfa, Hen Swyddfa'r Post, Stryd Fawr, Casnewydd NP20 1AA

Pobl Group Ltd. Registered as a Charitable Co-operative and Community Benefit Society No. 29682R. Registered Welsh Government No. J139.
Registered Office: Exchange House, The Old Post Office, High Street, Newport NP20 1AA

Pobl Group Cyf. Cofrestrwyd fel Cwmni Cydweithredol Elusennol a Chymdeithas Budd Cymunedol Rhif. 29682R. Cofrestrwyd gyda Llywodraeth Cymru, Rhif. J139.
Swyddfa Gofrestredig: Tŷ'r Gyfnewidfa, Hen Swyddfa'r Post, Stryd Fawr, Casnewydd NP201AA

Amanda Davies – Prif Weithredwr,
Grŵp Pobl,
Exchange House,
Yr Hen Swyddfa Bost,
Stryd Fawr,
Casnewydd, NP20 1AA

8 Chwefror 2018

**Datgelu'r iawndal sy'n daladwy i gyfarwyddwyr a chyn-gyfarwyddwyr**

Annwyl Amanda

Diolch am eich llythyr ar 26 Ionawr 2018, sy'n nodi'ch ymateb i'r materion a godwyd yn fy llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2018. Ceisiais eglurhad a gwybodaeth mewn perthynas â thaliadau i uwch-weithredwyr am golli eu swyddi. Roedd hyn yn dilyn tystiolaeth a roddwyd gennych i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod ei ymchwiliad i Reoleiddio Cymdeithasau Tai.

Yn eich ymateb, rydych yn nodi'r rhesymau dros y symiau gwahanol a adroddwyd yn daladwy i gyfarwyddwyr am golli eu swyddi yn 2014-15 fel y'u nodwyd yn y cyfrifon am y flwyddyn honno ac yn y cyfrifon ar gyfer 2015-16. Rydych yn nodi bod y taliadau'n ymwneud â phenderfyniad i leihau maint y Tîm Gweithredol a'u bod wedi'u gwneud yn unol â hawl cytundebol y staff.

Rwy'n deall bod safonau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo ffigurau a adroddir ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn cael eu hailddatgan (neu eu diwygio), bod hyn wedi'i nodi'n glir yn y cyfrifon. Hefyd, mae safonau cyfrifyddu yn mynnu bod y cyfrifon yn cynnwys esboniadau ar gyfer diwygiadau. Gellid dadlau nad oedd y cynnydd yng ngwerth y taliadau i gyfarwyddwyr am golli eu swyddi yn 2014-15 (o £35,000 i £406,000) yn sylweddol yng nghyd-destun cyfanswm

gwariant Grŵp Gwalia am y flwyddyn honno. Fodd bynnag, o gofio sensitifrwydd y taliadau a diddordeb posibl y cyhoedd ynddynt, byddwn wedi disgwyl i ddatgeliadau priodol gael eu gwneud yng nghyfrifon 2015-16 Grŵp Gwalia. Fodd bynnag, nid ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r ailddatganiad yn y cyfrifon hynny.

Rydych hefyd yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r taliad i'r Athro Williams, Prif Weithredwr blaenorol Grŵp Gwalia. Fel rwy'n deall, mae safonau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydnabod rhwymedigaethau yn eu cyfrifon, a gwneud y datgeliadau cysylltiedig, pan fydd ganddynt rwymedigaeth bresennol i weithredu neu berfformio mewn ffordd benodol.

Rydych yn nodi, fel y cytunwyd rhwng y cynghorwyr cyfreithiol priodol, y talwyd y taliad diswyddo i'r Athro Williams ar 15 Ebrill 2016. Nid yw'n glir o'r wybodaeth rydych wedi'i darparu o ba ddyddiad yr oedd gan Grŵp Gwalia rwymedigaeth i'r Athro Williams ac felly, p'un a ddylai'r taliad diswyddo gael ei gynnwys a'i ddatgelu yn y cyfrifon ar gyfer 2015-16 neu 2016-17. Cyn belled ag y gallwn weld, ni ddatgelwyd y taliad yng nghyfrifon 2015-16 Grŵp Gwalia. Rydych yn cadarnhau - gan nad oedd yr Athro Williams yn gyfarwyddwr y Grŵp Pobl - na chafodd y taliad ei ddatgelu yn ei gyfrifon ar gyfer 2016-17 ychwaith.

Croesawaf eich cadarnhad eich bod yn gwerthfawrogi tryloywder. Gan roi o'r neilltu unrhyw ofynion cyfrifyddu technegol mewn perthynas â pha flwyddyn y cydnabuwyd a datgelwyd y swm a oedd yn daladwy i'r Athro Williams, byddai'n amlwg yn anfoddhaol ac yn ddiffygiol o ran tryloywder pe na bai'r taliad diswyddo yn cael ei ddatgelu yng nghyfrifon Grŵp Gwalia na'r Grŵp Pobl.

Mae eich llythyr yn nodi, i ymateb i'm llythyr, eich bod wedi siarad â'ch archwilydd allanol, Mazars. Rydych yn nodi eich bod yn siomedig nad yw cyfrifon y Grŵp Pobl ar gyfer 2016-17 o yn cynnwys datgeliad mewn perthynas â'r taliad i'r Athro Williams. Er bod y Bwrdd yn gyfrifol yn y pen draw, y Grŵp Gweithredol sy'n paratoi'r cyfrifon. Drwy wneud hynny, rhaid iddo sicrhau bod y cyfrifon yn unol â'r

gyfraith a'r rheoliadau perthnasol, ac yn cynnwys yr holl ddatgeliadau priodol.  Nid cyfrifoldeb yr archwilydd allanol ydyw.

Croesawaf eich penderfyniad i ddiwygio ac ail-gyhoeddi cyfrifon 2016-17 ar gyfer y Grŵp Pobl fel eu bod yn cynnwys gwybodaeth am y taliad i'r Athro Williams. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod bod y broses ddyledus wedi'i dilyn yn hyn o beth.  Byddwn hefyd yn croesawu eich sicrwydd bod camau priodol wedi'u cymryd i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a phriodol yn cael ei chynnwys yn y cyfrifon am daliadau sensitif yn y dyfodol, fel y rhai ar gyfer colli swyddi, a thrwy hynny sicrhau tryloywder [a galluogi gwaith craffu].

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

Saesneg yn unig

Nick Ramsay AM
Chair, Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

pobl
people making a difference

21 February 2018

Dear Nick

Thank you for your letter dated 8th February. I have tried to contact your office for a discussion before drafting this response.

I want to confirm again that the disclosures in both the Grŵp Gwalia financial statements and in the Pobl Group financial statements are absolutely in accordance with the accounting standards which were in force at the time. This has been scrutinised in detail by our external auditors Mazars following your first letter. I have asked the question again and this has been reiterated by them and also by Pobl's Executive Director of Resources.

I think we agree that this is not necessarily an issue around the technical accounting treatment of such payments but equally importantly it's about ensuring transparency. When I said at the PAC that Mr Williams' payment for loss of office would be disclosed in the accounts, I said this in good faith having no reason to think that it wouldn't be. The confluence of the timing of the merger, the shift to FRS 102 (given the disclosure rules under FRS 102 differ from UK GAAP) and the timing of Mr Williams' exit from Pobl mean that the disclosure was caught up in the change. This is unfortunate and as you are aware we have updated the Pobl Group accounts to include the additional information. I wish I had spotted it at the time but sadly I didn't.

In terms of your request to me to 'advise that due process has been followed', I can confirm that both the Group Chair and the Chair of our Group Audit Committee have been part of the decision to add the additional disclosure into the accounts. Our auditors have confirmed they are happy with the inclusion and that, in their opinion, the change doesn't in anyway impact on the 'true and fair' view of the accounts. We will also be minuting the decision to voluntarily add the information at the next meeting of the Group Audit Committee and also at the next Pobl Group AGM.

As I have already said I am disappointed about the situation and I'm satisfied that it has now been dealt with.

Yours sincerely

Amanda Davies

Amanda Davies
**Group Chief Executive**

Cc Wendy Bourton, Pobl Group Chair



Pobl Group Ltd. Registered as a Charitable Co-operative and Community Benefit Society No. 29682R. Registered Welsh Government No. J139.
Registered Office: Exchange House, The Old Post Office, High Street, Newport NP20 1AA

Pobl Group Cyf. Cofrestrwyd fel Cwmni Cydweithredol Elusennol a Chymdeithas Budd Cymunedol Rhif. 29682R. Cofrestrwyd gyda Llywodraeth Cymru, Rhif. J139.
Swyddfa Gofrestredig: Tŷ'r Gyfnewidfa, Hen Swyddfa'r Post, Stryd Fawr, Casnewydd NP201AA